**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA HIDCC 150 26

Lynda Warren
Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

IEPAW@llyw.cymru

10 Mawrth 2026

Annwyl Lynda

Hoffwn ddiolch am yr adroddiad "Diogelu Gwrychoedd yng Nghymru". Mae'n amlwg bod llawer iawn o waith wedi mynd i'r ddogfen bwysig hon, ac mae'n mynegi'n glir pa mor hanfodol yw ein safleoedd gwarchodedig wrth i ni weithio tuag at weledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang erbyn 2050, mae bioamrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, ei gadw, ei adfer a'i ddefnyddio'n ddoeth, gan gynnal gwasanaethau ecosystemau, cynnal planed iach a darparu buddion sy'n hanfodol i bawb.
Rhowch fy niolchiadau i aelodau tîm Asesydd Diogelu Amgylchedd Cymru Dros Dro, yn y gorffennol a'r presennol, a'r myfyrwyr a fu'n rhan o greu'r adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad yw llawer o'n safleoedd gwarchodedig yn gwneud yn dda. Rydym wedi ymrwymo i ddod â newid cadarnhaol gwirioneddol drwy gynnig cymorth i dirfeddianwyr drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda gofyniad bod o leiaf 10% o bob fferm yn cael ei reoli fel cynefin. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i ffermydd sydd â safleoedd dynodedig gynhyrchu cynllun rheoli i helpu i ddod â safleoedd i gyflwr gwell. I'r ffermwyr hynny sydd am fynd ymhellach, bydd cyfleoedd wedi'u targedu i adfer a gwella cynefinoedd ar safleoedd penodol yn haenau Opsiynol a Chydweithredol y cynllun.

Rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd eisoes. Yn ystod y cyfnod pan oedd eich adroddiad yn cael ei ddatblygu, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein Rhaglen Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'n Cynllun Gweithredu Mawndir Cenedlaethol. Mae dros £54m wedi'i fuddsoddi yn ystod tymor y Senedd hwn gan helpu i wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig tra'n annog ymgysylltu â'r gymuned. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi prosiectau Natur am Byth a LIFE dan arweiniad CNC sy'n canolbwyntio ar adfer rhai o'n cynefinoedd a'n rhywogaethau sydd dan fygythiad.

Bydd Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Targedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu amgylchedd naturiol Cymru. Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwydr. Bydd gwella ein dealltwriaeth o gyflwr ein safleoedd gwarchodedig yng Nghymru yn hanfodol ar gyfer cyflawni targedau o'r fath.

Ynghyd â'm swyddogion, rwyf wedi ystyried yn ofalus yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad ac mae ein hymateb i bob argymhelliad wedi'i ddarparu yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs